

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

**Bwrdd Iechyd Addysgu  
Powys:**

**Ysbyty Trefyclo  
(Panpwnton)**

**Ysbyty Coffa Rhyfel  
Aberhonddu (Epynt)**

Dyddiad arolygu: 10 ac 11 Awst 2016

Dyddiad cyhoeddi: 16 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	3
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb .....	6
5.	Canfyddiadau .....	8
	Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	23
6.	Y Camau Nesaf.....	28
	Atodiad A.....	29
	Atodiad A.....	39

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o ddwy o wardiau'r gyfarwyddiaeth gymunedol o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 10 ac 11 Awst 2016. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbytai yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Trefyclo

- Ward Panpwnton

Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu

- Ward Epynt


Noder am weddill yr adroddiad arolygu hwn y byddwn yn cyfeirio at ward Panpwnton a ward Epynt yn unig er hwylustod i'r darllenwr.

## 2. Methodoleg

Mae amrywiaeth o ddulliau a methodolegau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, ac rydym yn dewis y rhai mwyaf priodol yn ôl amrywiaeth ac ystod y gwasanaethau yr ydym yn bwriadu eu harolygu. Mae arolygiadau trylwyr o un ward yn caniatáu inni gymryd golwg hynod fanwl ar agwedd fach ar ddarpariaeth o ofal iechyd, tra bo'r sylw cynyddol a gynigir trwy ymweld â nifer fwy o wardiau ac adrannau'n ein galluogi i gynnal asesiad mwy cadarn o themâu a phroblemau o ran y bwrdd iechyd dan sylw. Yn y ddau achos, caiff adborth ei wneud ar gael i wasanaethau iechyd mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) yn ganolog i ddull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Mae arolygiadau o ysbytai'r GIG yn ddirybudd, ac rydym yn arolygu ac yn adrodd mewn perthynas â thair thema:

- **Ansawdd Profiad y Claf:**  
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol:**  
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth:**  
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad o gyfarwyddiaeth gofal ysbyty cymunedol / yr henoed o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys tri rheolwr arolygu AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol a dau adolygydd lleyg.

Gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau a chyfweliadau â staff
- Arsylwadau cyffredinol ar yr amgylchedd gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau ag uwch-reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd
- Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
- Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnal urddas a gofal hanfodol.

### 3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys chwarter o dir Cymru; serch hynny, dyma'r ardal bwrdd iechyd mwyaf prin ei phoblogaeth. O fewn y bwrdd iechyd, ceir cyfanswm o naw o gyfleusterau i gleifion preswyl sy'n darparu gofal cymunedol ac adsefydlu i gleifion. Mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu gwasanaethau gofal aciwt gan fyrddau iechyd cyfagos (yng Nghymru ac yn Lloegr) ac yn dychwelyd cleifion i adsefydlu a gwella yn eu hysbytai eu hunain.

#### **Ward Panpwnton**

Mae ward Panpwnton yn Ysbyty Trefyclo yn ward 13 gwely i gleifion preswyl (ar adeg yr arolygiad roedd ar agor i ddeg o gleifion). Caiff anghenion meddygol y cleifion eu goruchwyllo gan un practis meddygon teulu lleol. Mae'r meddygon teulu'n galw bob dydd yn ystod yr wythnos ac mae'r ysbyty'n defnyddio'r gwasanaeth (allan o oriau) lleol Shropdoc gyda'r nos ac ar benwythnosau. Ceir cymysgedd o ystafelloedd gwely sengl ac aml-wely.

#### **Ward Epynt**

Mae ward Epynt yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu yn ward 15 gwely ar gyfer cleifion preswyl (ar adeg yr arolygiad roedd ar agor i 13 o gleifion) sy'n arbenigo'n bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, mewn adsefydlu ar ôl strôc. Mae 13 o'r 15 gwely mewn ystafelloedd sengl gyda chyfleusterau en suite. Mae un ystafell gyda dau wely a dim cyfleusterau en suite ond mae cyfleusterau cymunedol gerllaw.

#### **Nodiadau Esboniadol Ychwanegol**

Yn ystod ein harolygiad, cawsom wybodaeth a oedd yn achos pryder ynglŷn ag un aelod o staff ar ward Panpwnton, yn ymwneud â rhai pethau a allai fod wedi achosi risg i ddiogelwch, urddas a pharch cleifion. O ganlyniad, rhoddodd AGIC adborth ar lafar i'r ward ar yr un diwrnod a chyfarfu ag uwch-reolwyr y diwrnod canlynol. Cafodd y materion hyn hefyd eu dilyn ymhellach yn ysgrifenedig y tu allan i'r broses arolygu. Gwnaethom ofyn am sicrwydd ynglŷn â phenderfyniadau a chanlyniadau, gan gynnwys ystyriaeth dan weithdrefnau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.<sup>1</sup> Roedd AGIC yn fodlon ar gamau gweithredu'r bwrdd iechyd mewn perthynas â'r materion hyn (13 Medi 2016).

---

<sup>1</sup>Ceir gwybodaeth bellach am amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yma: [http://ssiacymru.org.uk/home.php?page\\_id=3014&langSwitch=cym](http://ssiacymru.org.uk/home.php?page_id=3014&langSwitch=cym)

## 4. Crynodeb

Gan nad oedd AGIC yn hollol sicr bod trefniadau ar waith i sicrhau bod gofal diogel ac urddasol yn cael ei gyflenwi bob amser ar y ddwy ward, gwnaethom amlygu meysydd a allai gael effaith ar ofal cleifion yn ogystal ag ar brofiad cleifion. Er hynny, cawsom rai sylwadau cadarnhaol gan gleifion a pherthnasau am y staff a'r gofal a thriniaeth a dderbynnir ar y ddwy ward.

Cawsom ein gwneud yn ymwybodol o brofiadau cleifion a oedd yn achos pryder ar y ddwy ward ac ymdriniwyd â'r rhain mewn gohebiaeth ar wahân gyda'r bwrdd iechyd.

Oherwydd rhai problemau sylfaenol, ni allem fod yn sicr bod y staff ar ward Panpwnton yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Yn ogystal, gwelsom ar ward Epynt nad oedd nifer o'r gwelliannau a argymhellwyd yn ein harolygiad yn 2014 wedi derbyn sylw o hyd.

Roedd amgylchedd y wardiau yn lân, yn daclus, ac yn rhydd rhag peryglon. Fodd bynnag, gellid eu gwella trwy ddatblygu amgylchedd sy'n fwy ystyriol o ddementia / nam gwybyddol. Amlygwyd hyn mewn adroddiad blaenorol.

Roedd ymatebion a gafwyd i'r holiadur staff yn dangos y gellid gwella'r broses gyffredinol o gyfathrebu rhwng uwch staff a staff y ward, er mwyn gallu dysgu yn dilyn digwyddiadau pwysig.

Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i adolygu lefelau staffio a'r gymysgedd o sgiliau a thimau ar y ddwy ward i alluogi staff i ddarparu gofal unigol ac i hwyluso gwaith adsefydlu / cynllunio i ryddhau cleifion yn fwy prydlon.

Gwelsom fod y cofnodion a gwblhawyd o ran gofal a thriniaeth cleifion yn dda yn gyffredinol, er bod anghysondebau mewn rhai meysydd. Er enghraifft, ar ward Epynt gwelsom y canlynol: asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad perthnasol a chynlluniau gofal nad oeddent yn cyd-fynd ag unrhyw asesiad a oedd wedi ei adolygu, dim asesiadau galluedd meddyliol, dogfennau anghyflawn, ac esgeulustod o ran meddyginiaeth. Ond ar ward Panpwnton, er nad oedd asesiad galluedd meddyliol na chyfraniad gan berthnasau ar gyfer ffurflen Na Cheisier Dadebru yng nghofnodion un claf, roedd yr holl ddogfennau eraill yn drefnus ac yn cynnig golwg gyfannol o anghenion a

---



gofal cleifion. Roedd angen i'r ddwy ward sicrhau bod ffeiliau cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser.

Roedd nifer o aelodau newydd o uwch staff ar y tîm rheoli; felly, nid oedd rhai o'r newidiadau gweithredol wedi cael eu hymgorffori ar lefel y ward eto. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth uwch glir a strwythur uwch-reoli mwy sefydlog. Cafwyd rhai sylwadau gan staff ynglŷn â'r

angen am bresenoldeb mwy amlwg gan uwch-staff ar ward Panpwnton oherwydd ei lleoliad ynysig, er ein bod yn ymwybodol bod sylw eisoes wedi cael ei roi i'r mater hwn. Roedd y ddau reolwr ward yn gymharol newydd i'w swyddi fel rheolwyr ond roeddent yn cael cefnogaeth dda gan yr uwch-dîm yn ôl pob golwg. Roedd problem o ran cael rhywun i gyflenwi swydd rheolwr y ward yn ystod gwyliau blynyddol ar ward Panpwnton a chawsom ein sicrhau bod y mater hwn wedi cael ei unioni.

Gwelsom fod staff yn gallu cael mynediad hawdd at gyfleoedd hyfforddiant ar-lein, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y byddai'r hyfforddiant gorfodol yn gyfredol ar gyfer yr holl staff. Fodd bynnag, roedd problem gyda hyfforddiant clinigol / arbenigol mewn rhai meysydd. Roeddem yn bryderus ynghylch agweddau rhai aelodau o staff a gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith bod y materion hyn yn cael sylw mewn modd priodol.

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Gan nad oedd AGIC yn hollol sicr bod trefniadau ar waith i sicrhau bod gofal diogel ac urddasol yn cael ei gyflenwi bob amser ar y ddwy ward, gwnaethom amlygu meysydd a allai gael effaith ar ofal cleifion yn ogystal ag ar brofiad cleifion. Er hynny, cawsom rai sylwadau cadarnhaol gan gleifion a pherthnasau am y staff a'r gofal a thriniaeth a dderbynnir ar y ddwy ward.

Cawsom ein gwneud yn ymwybodol o brofiadau cleifion a oedd yn achos pryder ar ward Panpwnton ac ymdriniwyd â'r rhain mewn gohebiaeth ar wahân gyda'r bwrdd iechyd.

#### **Gofal unigol**

*Mae'n rhaid i ddarpariaeth gofal barchu dewisiadau pobl o ran sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain gan fod cadw annibyniaeth yn gwella ansawdd bywyd ac yn cynyddu lles corfforol ac emosiynol.(Safon 6.1)*

Gwnaeth ymatebion gan staff i holiadur AGIC gadarnhau bod annibyniaeth cleifion yn cael ei hybu.

#### **Epynt**

Gwelsom fod ansawdd a dognau bwyd yn dda. Cadarnhaodd yr holl gleifion fod y bwyd yn codi archwaeth ac yn llawn maeth. Roedd cegin fach a oedd yn galluogi cleifion i gael byrbrydau y tu allan i oriau. Dangoswyd cegin fach i ni hefyd a oedd ar gyfer perthnasau, a allant fod ag angen lluniaeth pan oeddent yn ymweld â pherthnasau a oedd ar y llwybr diwedd bywyd. Mae hyn yn faes o arfer nodedig. Gwelsom glaf yn mwynhau mynd i'r ystafell fwyta i gael bwyd, ond gwnaethom arsylwi ar yr un claf yn bwyta bwyd a oedd wedi cwmpo ar y llawr; roedd hyn oherwydd diffyg goruchwyliaeth gan staff yn yr ystafell fwyta. Gwnaethom nodi hefyd bod y byrddau'n ludiog ac yn fudr. Nid oedd hyn yn dangos urddas na pharch tuag at y bobl sy'n defnyddio'r ystafell. Dywedwyd wrthym hefyd, "*Hoffwn i pe byddai cloch yn yr ystafell fwyta i alw am gymorth.*" Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwr, a ddywedodd wrthym fod cloch yn yr ystafell fwyta ar gyfer galw nyrsys. Awgrymwn fod y staff yn hysbysu'r cleifion am hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd a reolwr y ward sicrhau bod cleifion yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol ar adeg prydau bwyd.***

Roedd gan y rhan fwyaf o gleifion gyfleusterau en suite; roedd un ystafell gyda dau wely heb gyfleusterau en suite, ond roedd cyfleusterau ymolchi a thoiledau gerllaw. Dim ond un claf oedd yn yr ystafell hon ar y pryd.

### **Panpwnton**

Gwelsom fod ansawdd a dognau bwyd yn dda. Cadarnhaodd yr holl gleifion fod y bwyd yn codi archwaeth ac yn llawn maeth. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd cegin ar gael ar y ward ac felly ei bod yn anodd cael byrbrydau y tu allan i oriau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrbrydau ar gael i'r cleifion bob amser.***

Gwelsom nad oedd unrhyw gyfleusterau cawod, dim ond baddon. Dywedodd cleifion y byddent wedi gwerthfawrogi dewis o faddon neu gawod.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o ystafelloedd ymolchi ar y ward gyda dewis o gawod neu faddon.***

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol, gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. (Safon 6.2)*

Er y dywedwyd wrthym am weithgareddau a oedd ar gael ar y ddwy ward, ni welsom unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnal yn ystod yr amser yr oeddem yno.

### **Epynt**

Dyweddodd y staff wrthym fod trefnydd gweithgareddau enwebedig a'i fod wedi sicrhau cyllid gan y Gynghrair Cyfeillion yn ddiweddar i ehangu'r amserlen gweithgareddau. Roeddent eisoes wedi elwa ar therapi anifeiliaid anwes, ac roedd yr amgueddfa leol wedi personoli blychau chwilota ar gais y staff. Roedd therapi paentio a cherddoriaeth wedi cael ei drefnu.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithgareddau priodol ar waith i ysgogi a hybu adsefydliad.***

#### **Panpwnton**

Er bod rhai gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau i gleifion sy'n byw gyda dementia (roedd yr arbenigwr dementia'n ymweld â'r ward dwywaith yr wythnos), gwelsom mai ychydig iawn o weithgareddau ysgogol oedd ar gael ar wahân i wylïo'r teledu neu ddarllen cylchgronau/papurau newydd.

#### **Panpwnton ac Epynt**

Nid oedd yn hawdd cael gwybodaeth ynglŷn â "Gweithio i Wella" ar y naill ward a'r llall. Yn ogystal, nid oedd y manylion cyswllt ar gyfer y cyngor iechyd cymuned lleol yn cael eu harddangos ar y wardiau.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefn gwyno "Gweithio i Wella" a manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned yn cael eu harddangos mewn man amlwg er mwyn i gleifion a pherthnasau allu eu gweld.***

*Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt dderbyn ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu yn ôl anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny, a dylent ddangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3)*

Gwnaethom dderbyn 14 o holiaduron cleifion AGIC:

- wyth o holiaduron o ward Epynt
- chwech o holiaduron o ward Panpwnton.

Gwnaethom siarad â nifer o gleifion (y rhai a ddewisodd ymateb a'r rhai a oeddent yn gallu ymateb) a pherthnasau i ganfod eu canfyddiad hwy o'r gofal a'r profiadau ar y wardiau. Rhoddodd yr 14 o gleifion/perthnasau a ymatebodd i'r holiaduron, ynghyd â'r rhai y gwnaethom siarad â nhw, radd rhwng canolig a rhagorol (rhwng saith a deg allan o ddeg) i'r gofal a thriniaeth gyffredinol a dderbyniwyd ganddynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r holiaduron yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y staff yn gwrtais tuag at gleifion a'u teuluoedd. Defnyddiodd rhai cleifion/perthnasau eiriau fel "*cyfeillgar*" i ddisgrifio staff.

Fodd bynnag, roedd sylwadau a oedd yn peri pryder ynglŷn ag agweddau staff a phrofiadau cleifion ar y ddwy ward, gyda sylwadau megis y canlynol: "*nid yw'r holl staff yn gwrando arna'*", "*nid yw nyrs hŷn yn fy hoffi*", "*mae'n anodd deall y nyrsys o dramor*", "*mae un nyrs staff sy'n gwneud fy mywyd yn anodd iawn*", a "*gall rhai nyrsys fod yn ddrwg*". Roedd y sylwadau hyn yn dangos yn amlwg y gellid gwella profiad cleifion o ofal ar y ddwy ward. **Mae AGIC wedi ysgrifennu at y bwrdd iechyd ar wahân i'r adroddiad hwn am sicrwydd bod y sylwadau hyn wedi cael eu cymryd o ddifrif a'u bod yn cael eu hymchwilio'n drwyadl.** Cawsom gadarnhad a sicrwydd ynghylch rheolaeth y materion hyn ar 13 Medi 2016.

## **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol**

Oherwydd rhai problemau sylfaenol, ni allem fod yn sicr bod y staff ar ward Panpwnton yn cyflenwi gofal diogel ac effeithiol yn gyson, ac yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal. Yn ogystal, gwelsom ar ward Epynt nad oedd nifer o'r gwelliannau a argymhellwyd yn ein harolygiad yn 2014 wedi derbyn sylw o hyd.

Roedd amgylchedd y wardiau yn lân, yn daclus, ac yn rhydd rhag peryglon. Fodd bynnag, gellid eu gwella trwy ddatblygu amgylchedd sy'n fwy ystyriol o ddementia / nam gwybyddol. Amlygwyd hyn mewn adroddiad blaenorol.

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r holiaduron staff yn dangos y gellid gwella'r broses gyffredinol ar gyfer cyfathrebu gyda staff, er mwyn gallu dysgu yn dilyn digwyddiadau pwysig.

Gwnaethom gynghori'r bwrdd iechyd i adolygu lefelau staffio a'r gymysgedd o sgiliau a thimau ar y ddwy ward i alluogi staff i ddarparu gofal unigol ac i hwyluso gwaith adsefydlu / cynllunio i ryddhau cleifion yn fwy prydlon.

Canfuom fod y cofnodion a gwblhawyd o ran gofal a thriniaeth cleifion yn dda yn gyffredinol, er bod anghysondebau mewn rhai meysydd. Er enghraifft, ar ward Epynt, gwelsom asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad perthnasol a chynlluniau gofal nad oeddent yn cyd-fynd ag unrhyw asesiad a oedd wedi ei adolygu, dim asesiadau galluedd meddyliol, dogfennau anghyflawn, ac esgeulustod o ran meddyginiaeth. Ond ar ward Panpwnton, er nad oedd asesiad galluedd meddyliol na chyfraniad gan berthnasau ar gyfer ffurflen Na Cheisier Dadebru yng nghofnodion un claf, roedd yr holl ddogfennau eraill yn drefnus ac yn cynnig golwg gyfannol o anghenion a gofal cleifion. Roedd angen i'r ddwy ward sicrhau bod ffeiliau cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser.

### **Cadw'n iach**

*Mae pobl yn cael eu grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac mae gofaluwr am unigolion nad ydynt yn gallu gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl ac i leihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)*

## **Panpwnton ac Epynt**

Gwelsom systemau ar waith i adnabod cleifion a oedd angen cymorth ychwanegol, er enghraifft cleifion gyda phroblemau cofio neu gleifion a oedd wedi cael diagnosis o ddementia. Gwelsom fod y Cynllun Pili-pala<sup>2</sup> yn cael ei ddefnyddio ar y ddwy ward ond nad oedd wedi cael ei weithredu'n llawn ar y naill na'r llall. Gwnaethom edrych ar gofnodion chwech o gleifion ar draws y ddwy ward a oedd wedi cael diagnosis o ddementia ond dim ond tri ohonynt oedd â phili-pala i nodi eu namau gwybyddol.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cynllun Pili-pala yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyson trwy'r holl wardiau. Rhaid i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n llawn er mwyn cynorthwyo ymhellach gyda'r gwaith o gadw cleifion yn ddiogel, cyfathrebu â nhw, a sicrhau eu hurddas.***

Roedd taflenni hybu iechyd addas ar y ddwy ward, er y gellid rhoi'r hysbysfyrdau yn ward Epynt mewn mannau mwy gweladwy i'r cyhoedd.

Gwnaeth rhai o'r holiaduron gan gleifion neu eu perthnasau gadarnhau bod staff yn gwrando arnynt ac yn siarad â nhw am gyflwr meddygol y claf. Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno ac roedd rhai yn awgrymu bod y staff yn rhy brysur neu'n gwrthod gwrando. **Mae'r canfyddiadau hyn wedi cael sylw ar wahân i'r adroddiad hwn.**

### **Gofal diogel**

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu nodi a'u monitro ac, os oes modd, eu lleihau a'u hatal. (Safon 2.1)*

---

<sup>2</sup> Mae'r Cynllun Pili-pala'n caniatáu i bobl sydd â'u cof wedi'i effeithio'n barhaol gan ddementia wneud hyn yn glir i staff yr ysbyty, ac mae'n rhoi strategaeth syml ac ymarferol i'r staff i'w galluogi i ddiwallu anghenion y cleifion.

## **Panpwnton ac Epynt**

Gwelsom o leiaf bum claf ar ward Panpwnton nad oedd ganddynt fandiau adnabod ar eu harddyrnau. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr at hyn yn syth a chafodd y mater ei unioni. Gwelsom fod gan yr holl gleifion ar ward Epynt fandiau adnabod. **Roeddem yn pryderu y gallai hwn fod yn broblem ledled y bwrdd iechyd ac felly gwnaethom gyflwyno llythyr Sicrwydd ar Unwaith ynglŷn â'r mater hwn.** Gwnaethom dderbyn sicrwydd (15 Awst 2016) bod y mater hwn wedi cael sylw boddhaol. Anfonwyd gwybodaeth atom hefyd ynglŷn â chamau gweithredu'r bwrdd iechyd i sicrhau nad oedd yn bryder ledled y bwrdd iechyd cyfan.

Wrth edrych ar gofnodion, gwelsom fod cleifion, lle bo'n berthnasol, yn cael eu hasesu yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid<sup>3</sup> sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, gwnaethom arsylwi ar un claf ar ward Epynt (oedd â diagnosis o ddemtia) nad oedd ganddo asesiad galluedd meddyliol ac roedd y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi mynd heibio i'w dyddiad perthnasol.

Canfuom dystiolaeth bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i fonitro a lleihau risgiau lle bo'n bosibl. Er hynny, nid oedd canlyniadau archwiliadau ar gyfer meysydd fel digwyddiadau o friwiau pwyso, madredd a chwympau cleifion yn cael eu harddangos yn amlwg ar y wardiau o gwbl neu roeddent wedi mynd heibio i'w dyddiad perthnasol. Fe'n hysbyswyd bod y canlyniadau hyn wedi'u diweddarau ar system y bwrdd iechyd ac wedi'u trafod gyda staff.

Dywedodd rheolwyr ward Epynt wrthym fod hapwiriadau'n cael eu cynnal ar y ward yn rheolaidd, er nad oedd y rhain yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd. Dywedodd yr uwch dîm rheoli wrthym hefyd fod hapwiriadau dirybudd yn cael eu cynnal yn flynyddol ar bob ward o fewn y bwrdd iechyd. Mae hwn yn faes o arfer nodedig.

---

<sup>3</sup> Nod y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yw sicrhau nad yw pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu rai lle maent yn byw gyda chymorth ond yn colli eu rhyddid mewn modd diogel a phan fydd er budd pennaf y person ac na fydd modd arall i ofalu amdanynt. [https://www.alzheimers.org.uk/site/scripts/documents\\_info.php?documentID=1327](https://www.alzheimers.org.uk/site/scripts/documents_info.php?documentID=1327)



Roedd safon y gwaith cadw cofnodion yn dda iawn ar ward Panpwnton a byddai'n ddefnyddiol pe bai'r ward yn rhannu'r arfer hwn er mwyn iddo gael ei fabwysiadu mewn llefydd eraill o fewn y bwrdd iechyd.

Yn yr ymatebion a gafwyd i'r holiadur, dywedodd aelodau o staff y byddent yn hysbysu am ddigwyddiad a allasai fod wedi brifo staff neu gleifion. Fodd bynnag, cytunodd yr holl staff nyrsio ar draws y ddau ysbyty nad ydynt yn cael eu hysbysu am gamgymeriadau, digwyddiadau a gawsant eu hosgoi o drwch blewyn, neu ddigwyddiadau yn y sefydliad. Fodd bynnag, awgrymodd y ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a'r fferylllydd eu bod bob amser yn cael gwybod am unrhyw broblemau diogelwch.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid diwygio'r broses ar gyfer adrodd a hysbysu ynglŷn â chamgymeriadau, digwyddiadau a gawsant eu hosgoi o drwch blewyn, a/neu ddigwyddiadau. Dylai'r gyfarwyddiaeth nyrsio allu dangos sut mae'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau wedi cael eu lledaenu ymysg y staff.***

*Mae pobl yn cael cymorth i ofalu am eu croen, a gwneir pob ymdrech i atal pobl rhag datblygu briwiau pwyso a niwed i'r meinwe. (Safon 2.2)*

Roedd y dogfennau a welsom yn dangos bod y gofal gwirioneddol a oedd yn cael ei gyflenwi i gleifion yn adlewyrchu'r hyn a oedd wedi cael ei ysgrifennu yn eu hasesiadau, eu cynlluniau gofal a'u siartiau clwyfau. Canfuom hefyd fod bwndeli SKIN<sup>4</sup> yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Roedd rowndio bwriadol ar waith bob dwy awr ar y ddwy ward.

*Mae pobl yn cael asesiad risg cwympto a gwneir pob ymdrech i atal cwympiadau a lleihau niwed ac anabledd y gellir eu hosgoi. (Safon 2.3)*

---

<sup>4</sup> Mae bwndel SKIN (Arwyneb, Cadw i Symud, Ymataliaeth, Maeth – *Surface, Keep Moving, Incontinence, Nutrition* yn Saesneg) yn ddull i fonitro a chofnodi'r gofal a ddarperir i gleifion yr asesir eu bod mewn risg o friwiau pwyso.

Roedd y cofnod ar gyfer cleifion a oedd mewn perygl o gwmpo yn anghyson. Nid oedd asesiadau risg cwmpo wedi cael eu cwblhau bob tro neu roedd bylchau yn wybodaeth. Ni welsom unrhyw arddangosfeydd yn cyfleu gwybodaeth i'r cyhoedd am digwyddiadau cwmpo er enghraifft, y 'croes diogelwch' yn ymwneud â chwmpo yn yr un ward na'r llall.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid cwblhau dogfennau asesu cwympiadau a chynllunio gofal yn gyson a'u cynnal ar gyfer yr holl gleifion sydd mewn perygl o gwmpo.***

### **Panpwnton**

Dywedwyd wrthym fod dau achos o gwmpo wedi digwydd yn y mis diwethaf. Gwnaethom edrych ar y cynlluniau gofal ar gyfer y cleifion hyn a chanfod eu bod wedi cael eu hadolygu a bod y camau gweithredu angenrheidiol wedi cael eu cymryd. Gwelsom wybodaeth am atal cwmpo a phoster yn gwahodd staff i Ddangosiad Atal Cwmpo Powys. Gwelsom fod matiau cwmpo'n cael eu defnyddio i gleifion a oedd wedi eu nodi i fod mewn perygl mawr o gwmpo.

### **Epynt**

Nid oedd dim gwybodaeth atal cwmpo ar gael i staff na chleifion/perthnasau ac ni welsom fatiau cwmpo'n cael eu defnyddio. Roedd y problemau gyda'r clychau galw a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf wedi cael sylw, er i'r cleifion a staff ddweud wrthym nad oedd yn bosibl clywed y clychau o'r naill ben i'r ward na'r llall ac felly nad oedd y staff yn ymateb mor brydlon ag y dylent.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i reolwr ward Epynt sicrhau bod gwybodaeth ac offer atal cwmpo ar gael i staff a chleifion.***

*Mae angen i'r camau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn effeithiol fod yn fusnes i bawb, a rhaid iddynt fod yn rhan o arferion dyddiol ym maes gofal iechyd ac wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, fel bod pobl yn cael eu gwarchod rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. (Safon 2.4)*

Gwelsom fod y ddwy ward yn lân ac yn rhydd rhag arogleuon a chadarnhawyd hyn gan y cleifion. Fe'n hysbyswyd bod archwiliadau glanhau rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom yr amserlenni glanhau. Roedd digon o staff cadw tŷ ar y ddwy ward i'w cadw'n drefnus.

Fodd bynnag, gwelsom arfer gwahanol iawn rhwng y ddwy ward o ran gofalu am gleifion sydd â chlefyd heintus (nyrsio ataliol). Gwelsom fod hysbysiadau wedi eu harddangos er mwyn rhybuddio staff/ymwelwyr am y canllawiau rheoli heintiau y dylid eu dilyn cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd hyn neu cyn eu gadael. Gwelsom ar y ddwy ward fod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal yn rheolaidd gan y nyrs glinigol rheoli heintiau arbenigol ac, er bod y staff yn gallu esbonio eu swyddogaethau mewn perthynas â dillad atal heintiau, nid oeddent yn gyson yn cyflenwi'r safonau gofynnol ar un ward.

### **Panpwnton**

Gwnaethom arsylwi ar ofal un claf a gwelsom, er bod angen rhagor o gel dwylo wrth erchwyn gwelyau ar y ward, fod y gofal yn briodol ar y cyfan gydag offer yn cael ei ddadheintio a staff yn gwisgo/newid dillad atal heintiau yn ôl y gofyn.

### **Epynt**

Eto, gwnaethom arsylwi ar ofal un claf a'r gwaith cyffredinol o reoli heintiau ar y ward a gwelsom nad oedd offer yn cael ei ddadheintio ac nad oedd staff, o bob graddfa a disgyblaeth, yn cadw at y canllawiau. Er enghraifft, gwelsom uwch-nyrs yn dosbarthu meddyginiaeth i'r holl gleifion ar y ward heb wisgo dillad atal heintiau priodol wrth fynd at y claf a oedd angen nyrsio ataliol, gwelsom dri aelod o staff cadw tŷ yn glanhau'r ward heb wisgo ffedogau ac yna'n gweini diodydd poeth i'r cleifion heb ffedogau, a gwelsom un therapydd galwedigaethol yn mynd i mewn i'r ward yn gwisgo ffedog blastig ac yn mynd i mewn i ystafell claf heb waredu'r ffedog.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod yr holl staff yn cadw at y canllawiau rheoli heintiau bob amser.***

***Mae angen i reolwr ward Panpwnton sicrhau bod digon o gyflenwad o gel dwylo ar gael bob amser.***

*Mae pobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth a hydradu, er mwyn gwella cymaint â phosibl ar ôl afiechyd neu anaf (Safon 2.5).*

Dywedodd cleifion eu bod yn hoffi'r bwyd ar y cyfan a gwelsom fwyd ffres a oedd yn codi archwaeth ac a oedd mewn dognau o faint priodol. Pan wnaethom edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom fod asesiadau a chynlluniau gofal yn ymdrin â'u deiet a maeth a bod cyngor arbenigol wedi'i geisio lle'r oedd ei angen.

## **Panpwnton**

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cleifion bob amser yn cael cymorth i fwyta ac yfed (os oedd angen cymorth arnynt). Roedd bwyd yn cael ei osod o flaen claf gyda diagnosis o ddementia a gadawyd y claf i gysgu trwy amser cinio.

## **Epynt**

Gwelsom glaf yn brwydro i dorri bwyd gyda llwy a gwelsom nad oedd cleifion yn cael eu goruchwylio o gwbl yn yr ystafell fwyta. Yn ogystal, ni welsom unrhyw waith tacluso cyn gweini bwyd ac, ar un achlysur, gwelsom aelod o staff yn symud potel wrin oddi ar fwrdd claf a'i rhoi ar gadair cyn rhoi'r pryd ar y bwrdd.

Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod yr holl gleifion yn derbyn cymorth digonol i fwyta bob amser ar yr un o'r wardiau. Nid oedd unrhyw dystiolaeth chwaith ar y naill ward na'r llall bod cleifion yn cael eu hannog i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd.

Dywedodd cleifion a pherthnasau wrthym hefyd fod jygiau dŵr yn cael eu cymryd oddi wrth erchwyn y gwely yn y nos a dim ond un cwpan o ddŵr oedd ar ôl.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i reolwyr y wardiau sicrhau bod digon o gymorth a goruchwyliaeth briodol i gleifion fwyta eu prydau mewn ffordd urddasol a diogel.***

***Mae angen i reolwr ward Epynt sicrhau bod dŵr ar gael i gleifion trwy'r amser.***

*Mae pobl yn derbyn meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni, a hynny ar yr amser cywir (Safon 2.6).*

## **Panpwnton ac Epynt**

Gwnaethom wirio'r systemau ar gyfer storio, cofnodi a gweinyddu meddyginiaeth, a gwnaethom arsylwi hefyd ar arferion gweinyddu meddyginiaeth ar y ddwy ward. Ni chawsom ein sicrhau bod systemau diogel ar waith yn systematig i sicrhau bod pobl yn derbyn y feddyginiaeth a'r dos cywir ar yr amser cywir. Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau meddyginiaeth cleifion a gweld bod y rhain wedi cael eu cwblhau ac eithrio ar gyfer un claf. Dywedwyd wrthym nad oedd gan y bwrdd iechyd bolisi hunan-weinyddu meddyginiaeth ar gyfer cleifion ar hyn o bryd ond bod hwn yn cael ei ddatblygu.

Gwnaethom ddysgu bod staff sy'n gweinyddu meddyginiaeth yn gyfarwydd â'r system tabard coch<sup>5</sup> a gwelsom fod y staff a oedd yn gweinyddu meddyginiaeth yn defnyddio'r rhain ar y cyfan.

Roedd systemau cadarn ar waith ar y ddwy ward ar gyfer cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys y tu allan i oriau.

## **Epynt**

Wrth fynd i mewn i'r ward, gwelsom nad oedd dim aelodau o staff yn swyddfa rheolwr y ward, bod y swyddfa ar agor, a bod y cwpwrdd allweddi hefyd ar agor. Roedd hwn yn cynnwys yr allweddi i'r cwpwrdd cyffuriau a reolir (ymysg eraill). Gwnaethom holi a fyddai'r allwedd yn agor y cwpwrdd cyffuriau a dywedwyd wrthym nad oedd y rhan fwyaf o'r allweddi yn y cwpwrdd yn gweithio mwyach. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr fynd â ni at y cwpwrdd cyffuriau i roi cynnig ar ddefnyddio'r allwedd a gwelsom fod yr allwedd mewn gwirionedd yn agor y drws i'r cwpwrdd cyffuriau a reolir.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod diogelwch y ward yn cael ei gynnal trwy'r amser.***

Gwnaethom arsylwi ar rownd cyffuriau a gwelsom nad oedd y rheolwr yn gwisgo'r tabard trwy gydol y rownd. Gwnaethom sylwi hefyd nad oedd dŵr yn ystafell un claf i'w alluogi i gymryd y tabledi ac fe aeth y rheolwr i mewn i ystafell claf a oedd angen nyrsio ataliol a gwirio'r band adnabod heb wisgo ffedog na menig.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod mesurau rheoli heintiau'n cael eu cynnal trwy'r amser.***

Roedd y cofnod gweinyddu meddyginiaeth wedi cael ei gwblhau yn ôl y gofyn ac eithrio dau gyffur nad oeddent wedi cael eu hepgor dwywaith y dydd am bum diwrnod. Gwnaethom drafod hyn ar unwaith gyda'r rheolwr, a ddywedodd fod y mater wedi cael ei uwchgyfeirio i swyddfa'r nyrsys cronfa gan fod y mater yn

---

<sup>5</sup> Mae'r system tabard coch yn ddull effeithiol i atal tarfu ar y person sy'n gweinyddu meddyginiaeth yn ystod y broses hon. Gall y system gyflymu'r amser sydd ei angen i roi meddyginiaeth a helpu i atal camgymeriadau.

ymwneud â nyrs asiantaeth. Roedd AGIC yn bryderus y dylid bod wedi sylwi ar yr hepgoriadau hyn yn gynharach.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r siartiau cofnod gweinyddu meddyginiaeth er mwyn canfod unrhyw hepgoriadau yn brydlon.***

### **Panpwnton**

Gwnaethom nodi bod llawer iawn o stoc yn cael ei chadw yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir, yn arbennig diamorphine (cyffur cryf sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer poen yn bennaf). Roedd hyn yn anarferol gan fod y fferyllydd a'r technegydd fferyllol yn ymweld â'r ward bob wythnos. Gwnaethom drafod hyn gyda fferyllydd y ward, a nododd nad yw'r technegydd fferyllol yn achrededig i drin cyffuriau a reolir ac na allai dynnu'r cyffuriau o'r ward er mwyn eu distrywio.

Ar adegau, dim ond un nyrs gofrestredig oedd ar ddyletswydd ac felly roedd cytundeb polisi lleol ar waith i nyrs unigol weinyddu cyffuriau a reolir. Roedd hyn yn golygu cynnal gwiriad llawn o'r cyffuriau a reolir gyda nyrs gofrestredig arall ar y sifft nesaf, yn union ar ôl i'r nyrs honno gyrraedd y ward. Gwnaethom ofyn i gael gweld y polisi ond nid oedd y rheolwr yn gallu cael mynediad ato ar y fewnrwyd ar y pryd. Cawsom gopi o e-bost gan y bwrdd iechyd a oedd yn cadarnhau'r drefn a nodir yn y polisi.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael i dynnu cyffuriau nad oes eu heisiau mwyach o'r ward.***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir cael mynediad rhwydd at bolisiau ar y fewnrwyd.***

*Mae gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl ar unrhyw adeg. (Safon 2.7)*

Gwnaethom siarad â sawl aelod o staff yn ystod ein harolygiad, a gwnaethom archwilio sampl o'u cofnodion hyfforddiant. Nid oedd tystiolaeth bod staff wedi derbyn hyfforddiant diweddar mewn diogelu plant ac oedolion er bod hyfforddiant wedi cael ei drefnu ar gyfer pob gradd staff ar Epynt.

Drwy ein sgysiau gyda'r staff, cafwyd tystiolaeth eu bod yn gwybod yr hyn roedd angen ei wneud er mwyn diogelu llesiant a diogelwch y cleifion a all fod mewn perygl. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod digwyddiadau difrifol yn cael eu cofnodi ac y gweithredir yn eu sgil.

Ni welsom hysbysiadau a rhybuddion diogelwch i gleifion yn cael eu harddangos yn unrhyw fannau.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu cyfredol.***

### **Gofal effeithiol**

Gwnaethom edrych ar gofnodion tri chlaf ar bob ward a chanfod bod yr ansawdd yn foddhaol, er ei fod yn dda mewn rhai enghreifftiau, yn arbennig yn ward Panpwnton.

Roedd ffeiliau cleifion yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a oedd yn cynnwys asesiadau, cynlluniau gofal, bwndeli gofal perthnasol,<sup>6</sup> a chofnodion dyddiol. Roedd dwy ffeil i bob claf, un ar gyfer dogfennau nyrsio a'r llall ar gyfer y tîm meddygol ac aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth (er enghraifft, therapydd galwedigaethol, dietegydd a ffisiotherapyddion). Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd weithiau i nyrsys ddilyn cynlluniau gofal a oedd wedi cael eu hargymell gan y therapyddion.

### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei system bresennol ar gyfer cadw cofnodion cleifion. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cymryd camau i grynhoi'r wybodaeth gyffredinol sydd angen ei chwblhau ac i leihau dyblygiadau diangen.***

---

<sup>6</sup> Mae bwndel yn ffordd strwythuredig ar gyfer cofnodi cyflenwad gofal i gleifion a gwella canlyniadau i gleifion. Ceir rhagor o wybodaeth am fwndeli yma:

<http://www.ihl.org/resources/Pages/ImprovementStories/WhatsaBundle.aspx>

## **Gofal amserol**

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod diffyg staff yn golygu nad oedd cleifion bob amser yn derbyn gofal amserol. Er gwaethaf hyn, gwelsom staff yn gweithio'n ddyfal i geisio darparu gofal amserol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Er hynny, gwnaethom ganfod meysydd lle y gellid gwella. Er enghraifft:

- Ni welsom agwedd agored a chydweithredol bob amser o fewn y disgyblaethau tuag at ddarparu gofal amserol a gofal adsefydlu. Er enghraifft, roedd staff nyrsio'n darparu gofal brysiog yn ystod prydau bwyd a phan oedd cleifion angen defnyddio'r toiled oherwydd y diffyg staff, er mwyn i'r holl raddau staff therapiwtig allu mynychu cyfarfod yn ystod amser cinio. Gall agwedd amlddisgyblaethol ehangach liniaru adegau o straen ar y ward a gwella profiad y claf.



## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

Roedd nifer o aelodau newydd o uwch staff ar y tîm rheoli; felly, nid oedd rhai o'r newidiadau gweithredol wedi cael eu hymgorffori yn gyson ar lefel y ward eto. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth uwch glir a strwythur uwch-reoli mwy sefydlog. Cafwyd rhai sylwadau gan staff ynglŷn â'r angen am bresenoldeb mwy amlwg gan staff uwch ar ward Panpwnton oherwydd ei leoliad ynysig, er ein bod yn ymwybodol bod sylw eisoes wedi cael ei roi i'r mater hwn. Roedd rheolwyr y ddwy ward yn gymharol newydd i'w swyddi fel rheolwyr ond roeddent yn cael cefnogaeth dda gan yr uwch-dîm yn ôl pob golwg. Roedd problem o ran cael rhywun i gyflenwi swydd rheolwr y ward yn ystod gwyliau blynyddol a chawsom ein sicrhau bod y mater hwn wedi cael ei ddatrys.

Gwelsom fod staff yn gallu cael mynediad hawdd at gyfleoedd hyfforddiant ar-lein, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y byddai hyfforddiant gorfodol yr holl staff yn gyfredol. Fodd bynnag, roedd problem gyda hyfforddiant clinigol/arbenigol mewn rhai meysydd. Roeddem yn bryderus ynghylch agweddau rhai aelodau o staff a gwnaethom ofyn am sicrwydd ar unwaith bod y materion hyn yn cael sylw.

### **Staff ac adnoddau**

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu anghenion (Safon 7.1).*

Drwy ein sgysiau â staff ac archwilio sampl o gofnodion hyfforddiant ar y ddwy ward, canfuom eu bod yn gyfredol neu fod trefniadau ar waith i'r holl staff gwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn amserlenni penodol ac eithrio Colli Rhyddid, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a diogelu. Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau staff nyrsio y byddent yn elwa ar gyfleoedd dysgu pellach, yn benodol fflebotomi, mewnwythiennol, mewn nosod a gofal nasogastrig, gwybyddiaeth / rheoli ymddygiad yn dilyn strôc. Byddem yn cynghori'r bwrdd iechyd i archwilio pa hyfforddiant ychwanegol y gellid ei ddarparu yn y meysydd hyn.

O ran staffio, roedd y bwrdd iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at roi sylw i broblemau trwy leihau nifer y gwelyau oedd ar gael ar y ddwy ward a thrwy ymgyrch recriwtio barhaus. Fodd bynnag, roedd lefelau a chymysgedd sgiliau'r staff yn peri cryn dipyn o bryder yn ystod sifft y nos pan wnaethom ganfod mai dim ond un nyrs hyfforddedig ac un gweithiwr cymorth gofal iechyd oedd ar ddyletswydd ar ward Epynt

(gyda threfniadau sefydledig i ryddhau aelod ychwanegol o staff o ward gyfagos mewn argyfwng) a dim ond dau unigolyn cymwys ar ward Panpwnton.

## **Panpwnton**

Gwelsom fod y rheolwr newydd ar ward Panpwnton wedi rhoi pwyslais ar gynyddu mynediad at hyfforddiant ac uwchsgilio'r gweithlu. Drwy ein sgysiau gyda staff ac archwilio sampl o gofnodion hyfforddiant, canfuom eu bod yn gyfredol neu fod trefniadau ar waith er mwyn i'r staff i gyd gwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn amserlenni penodol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff nyrsio y byddent yn elwa ar gyfleoedd dysgu pellach.

Roedd arwyddion nad oedd digon o staff ar gael bob amser a gwelsom fod y staff yn brysur iawn o ystyried cymhlethdod a pha mor aciwt roedd anghenion cleifion. Roedd capasiti gwelyau ar y ward wedi cael ei leihau i geisio datrys y problemau staffio.

Dywedwyd wrthym hefyd fod rheolwr y ward yn mynd ar wyliau blynyddol ac na fyddai rheolwr uniongyrchol i oruchwylio rhedeg y ward o ddydd i ddydd. Roedd y bwrdd iechyd wedi rhoi uwch-reolwr o bell ar waith, a fyddai ar gael ar y ffôn.

**Roedd hyn yn achos pryder i AGIC a gwnaethom gyflwyno llythyr Sicrwydd ar Unwaith y byddai hyn yn cael ei ddatrys cyn i reolwr y ward fynd ar ei wyliau. Gwnaethom dderbyn ymateb boddhaol ar 16 Awst 2016.**

## **Epynt**

Drwy ein sgysiau â staff ac archwilio sampl o gofnodion hyfforddiant, canfuom eu bod yn gyfredol neu fod trefniadau ar waith i'r holl staff gwblhau rhywfaint o hyfforddiant gorfodol, ac eithrio Colli Rhyddid, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a diogelu.

Roedd arwyddion eto nad oedd digon o staff ar gael bob amser a gwelsom fod y staff yn brysur iawn o ystyried cymhlethdod a pha mor aciwt roedd anghenion cleifion. Yn ogystal, roedd cynllun y ward yn gwneud y problemau'n waeth ar ward Epynt.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r bwrdd iechyd barhau i adolygu lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau i sicrhau bod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau'n ddigonol i ddarparu gofal amserol yn unol ag anghenion amrywiol a newidiol y cleifion ac amgylchedd y ward.***

Gwelsom dystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaeth ond nid oedd yn waith tîm integredig, clir.

### **Panpwnton**

Roedd cofnodion therapi/nyrsio ar wahân ac nid oedd hyn yn cyd-fynd â gweithio integredig da. Fodd bynnag, gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda o ddydd i ddydd.

Roedd meddygon teulu o un feddygfa leol yn darparu gofal meddygol. Roeddem yn fodlon bod darpariaeth a chysondeb y gofal yn ddigonol.

Nid oedd nyrs ragnodi nac ymgynghorwyr nyrsio ac yr oedd staff yn teimlo y byddai hyn o fudd i ward Panpwnton, yn arbennig ar benwythnosau a thu allan i oriau.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Yn ogystal ag adolygu lefelau staffio'n barhaus, fel y cynghorir uchod, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa gymorth ychwanegol, fel nyrs ragnodi/ymarferwyr nyrsio a allai wella profiad y claf.***

### **Epynt**

Ni welsom therapyddion galwedigaethol na ffisiotherapyddion yn cefnogi timau ar y wardiau gydag agweddau amrywiol ar ofal y cleifion. Gyda'r diffyg staff ar y ward, gallai'r ymgysylltiad hwn fod wedi golygu nad oedd cleifion yn gorfod aros yn hirach nag oedd angen i dderbyn cymorth i symud neu gyda gofal personol. Nid oedd tystiolaeth o amcanion adsefydlu integredig yn y cynlluniau gofal. Enghraifft arall oedd yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaeth a gynhaliwyd amser cinio (sy'n amser prysur ar y wardiau). Roedd holl aelodau'r tîm therapi galwedigaethol a ffisiotherapi'n bresennol ond nid oedd unrhyw gynrychiolaeth gan staff y ward, oherwydd eu bod yn rhy brysur yn gweini cinio a rhoi cymorth i'r cleifion ddefnyddio'r toiled. Mae'r rhain yn feysydd lle y gellir gwneud y gorau o raglenni adsefydlu.

Roedd ymgynghorydd a meddyg teulu ar y ward ac roedd yr ymgynghorydd i'w weld ar ddau ddiwrnod yr arolygiad. Roeddem yn fodlon bod darpariaeth a chysondeb y gofal yn ddigonol.

#### ***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Yn ogystal ag adolygu lefelau staffio'n barhaus, fel y cynghorir uchod, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa gymorth ychwanegol, fel gwell timau integredig, a allai wella profiad y claf.***

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. (Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2, Tudalen 8)*

Roedd y ddau reolwr yn gymharol newydd i'w swyddi (llai na chwe mis). Gwelsom fod un rheolwr yn meddu ar sgiliau arweinyddiaeth cryf, gweledigaeth glir, ac arddull rheoli a oedd, yn ôl y staff, wedi newid yr amgylchedd ac ymroddiad unigol i'r tîm. Roedd y ddau reolwr yn dangos cynnydd da gyda chefnogaeth eu rheolwr llinell er gwaethaf problemau staffio a diwylliannau oedd wedi eu sefydlu cyn iddynt ddechrau yn eu swyddi. Gwnaethom gynghori'r rheolwr llinell dan sylw i sicrhau bod y gefnogaeth hon yn cael ei chynnal wrth i'r rheolwr wardiau newydd ennill rhagor o brofiad ac wrth i'r newidiadau gael eu sefydlu.

Dywedwyd wrthym fod rheolwr y ddwy ward yn weladwy ar y wardiau, a gwnaethom arsylwi ar berthynas weithio barchus rhyngddynt a'u staff. Gwnaethom sylwi bod amgylchedd y wardiau yn ddigynnwrf ac wedi'i drefnu'n dda ar y cyfan.

Gwnaethom ddarganfod enghreifftiau o sgiliau arweinyddiaeth arloesol, lle'r oedd rheolwr yn awyddus i annog dysgu a gwella safonau. Roedd rheolwr ward Panpwnton yn datblygu ystafell gofal lliniarol ac roedd wedi cael cymorth cyllidol gan y Gynghrair Cyfeillion yn ddiweddar. Yn ward Epynt, roedd y rheolwr yn edrych ar ffyrdd arloesol i annog cleifion i fod yn fwy gweithgar fel rhan o'u hadsefydliad. Roedd y ddau reolwr yn awyddus i ddatblygu hyfforddiant gwybyddol i staff gyda'r nod o wella'r gofal a'r amgylchedd i gleifion â dementia neu nam gwybyddol. Dywedwyd wrthym fod gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cael mynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia gan gynnwys hyfforddiant ar y Cynllun Pili-pala.<sup>7</sup>

Derbyniodd y ddau reolwr sylwadau cadarnhaol gan y staff ac roeddent wrthi'n newid diwylliannau a ffyrdd o weithio.

---

<sup>7</sup> Nod y Cynllun Pili-pala yw gwella diogelwch a llesiant cleifion trwy addysgu staff i ymateb yn gadarnhaol a phriodol i bobl sydd â nam ar eu cof ac mae'n caniatáu i bobl sydd â dementia, neu sy'n ddryslyd neu'n anghofus, ofyn am yr ymateb hwnnw trwy gael symbol pili-pala ar eu nodiadau ac uwchben eu gwelyau.



## 6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawniadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pryd bydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## Atodiad A


Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Trefyclo

Ward / Adran: Ward Panpwnton

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Awst 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>				
Tudalen 9	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o ystafelloedd ymolchi ar y ward gyda dewis o gawod neu faddon. <i>Safon 6.1</i>	Mae cynllun yr ysbyty, oedran yr adeilad, a'r cyfyngiadau o ran lle yn ei gwneud yn arbennig o heriol i gynyddu nifer yr ystafelloedd ymolchi. Fodd bynnag, mae ystafell gawod / ystafell wlyb newydd ar y gweill fel rhan o waith yr adran ystadau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Pan fydd wedi ei chwblhau, bydd cleifion yn cael dewis o gawod neu faddon.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwaith ac Ystadau	Diwedd mis Mawrth 2017
Tudalen 9	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrbrydau ar gael i'r cleifion bob amser.	Mae byrbrydau ar gael yn barod yn ystod y dydd ar gais gan y gegin a byddant yn cael eu darparu gyda'r gwasanaeth bwyd gyda'r nos hefyd er	Prif nyrs y ward	Ddim yn berthnasol

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>Safon 2.5</i>	cyfleustra cleifion y tu allan i oriau agor arferol y gegin.		
Tudalen 10	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefn gwyno "Gweithio i Wella" a manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned yn cael eu harddangos mewn man amlwg er mwyn i gleifion a pherthnasau allu eu gweld. <i>Safon 6.3</i>	Mae llyfrynnau "Gweithio i Wella" ar gael ar y ward. Mae posteri'r cyngor iechyd cymuned mewn mannau allweddol ar y ward ac ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r ward. Yn ogystal, mae clinig wythnosol i ofalwyr yn cael ei gynnal ar lefel y ward lle gellir darparu gwybodaeth ar lafar am "Gweithio i Wella" a chymorth gan y cyngor iechyd cymuned.	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd mis Medi 2016
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>				
Tudalen 13	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cynllun Pili-pala yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyson trwy'r wardiau i gyd. Rhaid i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n llawn er mwyn cadw cleifion yn ddiogel, cyfathrebu â nhw, a sicrhau eu hurddas. <i>Safon 3.1</i>	Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymroddedig i weithredu'r Cynllun Pili-pala a dangosir hyn yng Nghynllun Dementia Powys a thrwy gyflwyno swydd cydlynedd penodedig. Adduned 5 y cynllun yw gwella gofal pobl â dementia mewn lleoliadau ysbytai cyffredinol. Mae'r Cydlynedd Dementia'n darparu sesiwn diweddarau hyfforddiant y Cynllun Pili-pala ar ward Panpwnton ar 12 Hydref 2016.	Pennaeth Nyrsio  Dementia in Action Plan 9 - new format.  Prif nyrs y ward	Cynllun Dementia tair blynedd 2016–19  Tachwedd 2016



Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r Cynllun Pili-pala yn weladwy ar hysbysfwrdd y ward. Mae gwybodaeth i gleifion hefyd ar gael ar y ward.</p> <p>Mae hyrwyddwyr dementia wedi cael eu hadnabod ar y ward.</p> <p>Mae gwerthoedd "Ymgyrch John" i gael eu rhoi ar waith ledled Powys, i wella ymwybyddiaeth o ddementia a mynediad i ofalwyr.</p>		
<p><b>Tudalen 14</b></p>	<p><b>Llythyr Sicrwydd ar Unwaith:</b></p> <p><b>Yn unol ag egwyddorion gofal diogel y Safonau Iechyd a Gofal, dylai pob claf preswyl wisgo band adnabod ar ei arddwrn.</b></p>	<p>Mae prif nyrs y ward wedi atgoffa staff ei bod yn bwysig bod yr holl gleifion preswyl yn gwisgo band adnabod.</p> <p>Mae rheolwr y Tîm Clinigol Integredig wedi cynnal adolygiad hapwiriad i wirio bod bandiau adnabod ar waith (ar ôl ymweliad AGIC).</p> <p>Bydd rhaglen o hapwiriadau'n cael eu cyflwyno ledled yr ysbytai cymunedol i sicrhau cydymffurfiaeth ledled Powys o ran bandiau adnabod cleifion.</p> <p>Yn dilyn ymweliad AGIC, cynhaliwyd archwiliad o gydymffurfiaeth ledled yr holl ysbytai cymunedol ym Mhowys, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth foddhaol ac nad oedd y</p>	<p>Prif nyrs y ward</p> <p>Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Hydref 2016</p>

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		canfyddiad hwn yn un systemig. Mae'r canlyniadau hyn wedi cael eu rhannu ag AGIC.		
Tudalen 15	Dylid diwygio'r broses ar gyfer adrodd a hysbysu ynglŷn â chamgymeriadau, digwyddiadau a gawsant eu hosgoi o drwch blewyn, a/neu ddigwyddiadau. Dylai'r gyfarwyddiaeth nyrsio allu dangos sut mae'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau wedi cael eu dosbarthu ymysg y staff. <i>Safon 6.3</i>	<p>Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig i sicrhau bod trafodaeth ac adborth am bryderon yn cael eu cynnwys yn y sesiynau unigol gyda phrif nyrs y ward.</p> <p>Mae'r wybodaeth hon i gael ei rhannu yng nghyfarfod Ansawdd Profiad y Claf a Risg y gyfarwyddiaeth. Prif nyrsys y ward i fynychu a rhannu'r hyn a ddysgwyd.</p> <p>Bydd gwersi a ddysgwyd yn eitem ar agenda cyfarfod tîm y ward.</p>	<p>Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Prif nyrs y ward</p>	<p>Hydref 2016</p> <p>Hydref 2016</p> <p>Hydref 2016</p>
Tudalen 15	Rhaid cwblhau dogfennau asesu cwmpau a chynllunio gofal yn gyson a'u cynnal ar gyfer yr holl gleifion sydd mewn perygl o gwmpo. <i>Safon 2.3</i>	Mae gan bob claf dros 60 oed gynllun gofal cwmpau gydag asesiad risg a gwblhawyd pan gafodd ei dderbyn i'r ysbyty, yn unol â chanllawiau, a chaiff ei ddiweddarau bob wythnos neu mewn achos o gwmpo.	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd mis Medi 2016
Tudalen 19	Mae angen i reolwyr y ward sicrhau bod digon o gymorth a goruchwyliaeth briodol i gleifion fwyta eu prydau mewn ffordd	Mae patrymau sifftiau wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod nifer priodol o staff ar gael i oruchwyllo adeg prydau bwyd.	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd Medi 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	urddasol a diogel. <i>Safon 2.5</i>	<p>Anogir ymweld agored er mwyn i berthnasau cleifion sydd angen cymorth adeg prydau bwyd fynychu ar yr adegau hynny.</p> <p>Mae polisi amser bwyd neilltuedig wedi cael ei atgyfnerthu ac mae gan y staff swyddogaethau a chyfrifoldebau dros gleifion a thros baratoi'r amgylchedd ar gyfer gweini bwyd.</p> <p>Mae'r holl staff nyrsio a domestig wedi cael eu hatgoffa o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau adeg prydau bwyd.</p>		
Tudalen 21	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o staff ar gael i dynnu cyffuriau nad oes eu heisiau mwyach o'r ward, gan gynnwys cyffuriau a reolir. <i>Safon 2.6</i>	<p>Cafodd yr eitemau o stoc dros ben eu tynnu ar 28 Medi gan dechnegydd fferyllol arweiniol yr ysbyty cyffredinol dosbarth oedd wedi eu cyflenwi.</p> <p>Mae eitemau stoc sylfaenol wedi cael eu hadolygu.</p> <p>Bydd yr ysbyty cyffredinol dosbarth sy'n cyflenwi yn dechrau gwirio rhestrau stoc bob chwe wythnos i sicrhau bod y lefelau cywir yn cael eu cadw.</p>	Prif nyrs y ward i gysylltu â thechnegydd fferyllol yr ysbyty cyffredinol dosbarth.	Cwblhawyd mis Medi 2016
Tudalen 21	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau y gellir	Mae polisiâu ar gael ar fewnwyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac mae gan holl staff y ward	Prif nyrs y ward	Ddim yn berthnasol

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	cael mynediad rhwydd at bolisïau ar y fewnrwyd. <i>Safon 3.4</i>	fynediad at sawl cyfrifiadur. <i>Sylwer – gellir priodoli'r anhawster ar adeg yr archwiliad i'r ffaith bod mewnrwyd newydd yn cael ei gosod ar y pryd.</i>		
Tudalen 21	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu cyfredol. <i>Safon 7.1</i>	Caiff cydymffurfiaeth â'r holl hyfforddiant gorfodol a statudol ei monitro gan y Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ac o ran diogelu gan y Pwyllgor Diogelu. Mae cydymffurfiaeth gyffredinol y bwrdd iechyd o ran hyfforddiant diogelu wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, er ein bod yn cydnabod nad yw cydymffurfiaeth lawn wedi cael ei chyflawni.  Holl staff y ward i gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu plant ac oedolion erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016 trwy gyfrwng hyfforddiant ar-lein neu yn y dosbarth (trefnwyd dyddiadau ar gyfer 4 a 23 Tachwedd).	Prif nyrs y ward	Diwedd mis Rhagfyr 2016
Tudalen 21	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei system bresennol ar gyfer cadw cofnodion cleifion. Lle y bo'n bosibl, dylid cymryd camau i grynhoi'r wybodaeth gyffredinol sydd angen ei chwblhau ac i leihau dyblygiadau diangen. <i>Safon 3.5</i>	Ar y cyfan, mae'r bwrdd iechyd yn derbyn adborth cadarnhaol am gofnodion a chadw cofnodion trwy gyfrwng nifer o archwiliadau mewnol ac allanol.  Mae'r cofnodion nyrsio wedi cael eu hadolygu o'r blaen ac wedi cael eu hail-lunio a'u symleiddio ble'n bosibl, ac wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid.	Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig	Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae nodiadau timau amlddisgyblaeth yn cael eu rhannu, a all ychwanegu at drwch y cofnod cyffredinol pan gânt eu coladu. Mae rhaglen beilot yn digwydd yn Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais, a all helpu i leihau dyblygu. Bydd y rhaglen beilot yn cael ei gwerthuso, gyda'r nod o'i chyflwyno yn y dyfodol.</p> <p>Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cael ei chyflwyno ym Mhowys o fis Tachwedd 2016 a bydd yn cael effaith sylweddol ar waith cadw cofnodion, gan symud tuag at e-gofnodion. Fodd bynnag, nid yw'n berthnasol i ysbytai cymunedol.</p>		
	<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>			
Tudalen 23	<b><i>Oherwydd absenoldeb rheolwr y ward ar wyliau blynyddol am bythefnos o 11 Awst 2016, mae angen sicrwydd ar AGIC y bydd arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol ar gael trwy'r amser ar ward Panpwnton i gefnogi staff sy'n gweithio ar y ward.(Safon 7.1 – Y Gweithlu)</i></b>	<p>Mae trefniant effeithiol wedi ei wneud ar gyfer cyflenwi gwaith arweinyddiaeth a rheoli uwch, gydag arweinydd tîm Band 7 yn cefnogi o ddydd i ddydd, ac mae arweinydd tîm Band 6 wedi ei benodi dros dro i gyflenwi yn ystod absenoldeb prif nyrs y ward.</p> <p>Mae presenoldeb rheolwr y Tîm Clinigol Integredig yn fwy amlwg yn ystod absenoldeb prif</p>	Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>nyrs y ward.</p> <p>Mae swydd Band 6 dirprwy brif nyrs y ward yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ac mae cyfweiliadau wedi eu trefnu ar gyfer mis Hydref 2016.</p>		
Tudalen 23	<p>Dylai'r bwrdd iechyd barhau i adolygu lefelau staffio a'r gymysgedd sgiliau i sicrhau bod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau'n ddigonol i ddarparu gofal amserol yn unol ag anghenion amrywiol a newidiol y cleifion. <i>Safon 7.1</i></p>	<p>Mae'r bwrdd iechyd wedi cwblhau adolygiad o sefydliadau, ac mae sefydliadau diwygiedig wedi cael eu cytuno gan y Tîm Gweithredol ym mis Mehefin 2016. Cafodd lleoliad ynysig Ysbyty Trefyclo ei ystyried yn ystod yr adolygiad o sefydliadau.</p> <p>Mae'r lefelau staffio'n cydymffurfio ag egwyddorion y Prif Swyddog Nyrsio, er bod y lefelau hyn ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt trwy ddiffiniad.</p> <p>Mae'r broses recriwtio'n barhaus er mwyn llenwi swyddi gwag ac yn y cyfamser mae cyfanswm y gwelyau wedi cael ei leihau (am beth amser) i sicrhau gofal priodol i gleifion yn seiliedig ar y staff sydd ar gael.</p> <p>Caiff lefelau staffio eu hadolygu a'u trafod yn ddyddiol fel rhan o'r broses o reoli gwelyau a llif cleifion.</p> <p>Caiff unrhyw ddiffygion o ran staffio eu huwchgyfeirio at yr uwch dîm rheoli i gael eu</p>	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		datrys neu i benderfynu ar gamau gweithredu a chânt eu hysbysu trwy gyfrwng Datix.		
Tudalen 24	Yn ogystal ag adolygu lefelau staffio'n barhaus, fel y cynghorir uchod, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa gymorth ychwanegol, fel nyrsys rhagnodi / ymarferwyr nyrsio, a allai wella profiad y claf. <i>Safon 7.1</i>	<p>Ni chafodd dim problemau eu hysbysu mewn perthynas â darparu gofal gofynnol i gleifion ac mae cyfraniad y meddygon teulu yn dda yn Nhrefyclo. Mewn gwirionedd, mae'r meddygon teulu'n rhoi cefnogaeth gadarnhaol i'r uned.</p> <p>Bydd adolygiad o ddarpariaeth yn y dyfodol yn cael ei drefnu unwaith y bydd y swyddi gwag wedi eu llenwi ac y bydd y tîm yn fwy sefydlog.</p> <p>Mae rheolwr y Tîm Clinigol Integredig, sy'n gyfrifol am Drefyclo a'r gwasanaeth nyrsio ardal lleol, wedi sicrhau bod staff yn gweithio'n golegol a chaiff hyn ei alluogi oherwydd bod y tîm nyrsys ardal wedi ei leoli ar safle Ysbyty Trefyclo. Mae sgiliau'n cael eu rhannu/cefnogi ar draws y timau.</p> <p>Mae arweinydd y tîm nyrsys ardal wedi nodi, trwy ei Harfarniad ac Adolygiad Datblygu Personol, y byddai modiwl nyrs rhagnodi'n cryfhau sgiliau'r tîm. Mae rheolwr y Tîm Clinigol Integredig a'r Pennaeth Nyrsio'n cefnogi hyn a bydd yn cael ei ddatblygu.</p>	Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig	Mawrth 2017

**Cynrychiolydd y bwrdd iechyd:**

**Enw (llythrennau bras): Rhiannon Jones Cyfarwyddwr Nyrso**

**Teitl: Anita Davies Pennaeth Nyrso**

**Dyddiad: 3 Hydref 2016**



## Atodiad A

Arolygiad Ysbyty: Cynllun Gwella



Ysbyty: Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu

Ward / Adran: Ward Epynt

Dyddiad yr arolygiad: 10 ac 11 Awst 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd Profiad y Claf</b>				
Tudalen 8	Rhaid i reolwr y ward sicrhau bod y ward yn cael ei goruchwyllo'n ddigonol trwy'r amser. Safon 3.1	<p>Caiff lefelau staffio eu hadolygu a'u trafod yn ddyddiol fel rhan o'r broses o reoli gwelyau a llif cleifion.</p> <p>Caiff unrhyw ddiffygion o ran staffio eu huwchgyfeirio at yr uwch dîm rheoli i gael eu datrys neu i benderfynu ar gamau gweithredu a chânt eu hysbysu trwy gyfrwng Datix.</p> <p>Mae staff y ward yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal diogelwch cleifion a sicrhau goruchwyliaeth briodol ond ni fyddent yn gallu sicrhau goruchwyliaeth ar gyfer yr holl gleifion</p>	Prif nyrs y ward	Ddim yn berthnasol

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bob amser oni bai bod cymhareb staff o un claf i un aelod o staff yn cael ei sefydlu.		
Tudalen 9	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithgareddau priodol ar waith i ysgogi a hybu adsefydliad. <i>Safon 1.1</i>	<p>Mae dull amlddisgyblaethol tuag at adsefydlu ar waith. Er mwyn gwella hyn, mae 18 o sesiynau gweithgareddau wedi cael eu trefnu a'u cyllido gan y Gynghrair Cyfeillion, i ddechrau ym mis Tachwedd 2016. Bydd adborth gan gleifion am y sesiynau gweithgareddau'n cael ei gasglu a'i adolygu gyda'r posibilrwydd o fuddsoddi ymhellach trwy gyllid elusennol.</p> <p>Mae cleifion yn parhau i fwynhau therapi anifeiliaid anwes, sydd wedi bod ar waith ers peth amser.</p> <p>Mae cais wedi ei baratoi ar draws y bwrdd iechyd ac wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid Elusennol i dalu am feddalwedd, sy'n fenter gweithgaredd TG. Mae hwn wedi cael ei gefnogi ar egwyddor ond yn aros am gyngor caffael.</p>	Prif nyrs y ward	Tachwedd 2016 – Ionawr 2017
Tudalen 11	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefn gwyno "Gweithio i Wella" a manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned yn cael eu harddangos mewn man amlwg er mwyn i gleifion a pherthnasau allu eu gweld. <i>Safon 6.3</i>	<p>Mae llyfrynnau "Gweithio i Wella" ar gael ar y ward.</p> <p>Mae posteri'r cyngor iechyd cymuned mewn mannau allweddol ar y ward ac ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r ward.</p> <p>Mae clinig wythnosol i ofalwyr yn cael ei gynnal ar</p>	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd Medi 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		lefel y ward lle darperir gwybodaeth ar lafar am "Gweithio i Wella" a chymorth gan y cyngor iechyd cymuned, yn ôl yr angen.		
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>				
Tudalen 13	Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y Cynllun Pili-pala yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyson trwy'r wardiau i gyd. Rhaid i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n llawn er budd cadw cleifion yn ddiogel, cyfathrebu â nhw, a sicrhau eu hurddas. <i>Safon 2.1</i>	<p>Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ymroddedig i weithredu'r Cynllun Pili-pala a dangosir hyn yng Nghynllun Dementia Powys a thrwy gyflwyno swydd hwylusydd penodedig.</p> <p>Adduned 5 y cynllun yw gwella gofal pobl â dementia mewn lleoliadau ysbytai cyffredinol.</p> <p>Mae'r Cydlynnydd Dementia wedi darparu sesiynau hyfforddiant y Cynllun Pili-pala ar ward Epynt. Cynhaliwyd archwiliad ym mis Awst 2016 a nodwyd camau gweithredu.</p> <p>Mae'r Cynllun Pili-pala yn weladwy ar hysbysfwrdd y ward. Mae gwybodaeth i gleifion hefyd ar gael ar y ward.</p> <p>Mae hyrwyddwyr dementia wedi cael eu hadnabod ar y ward.</p> <p>Mae gwerthoedd "Ymgyrch John" i gael eu rhoi ar waith i wella ymwybyddiaeth o ddementia a mynediad i ofalwyr ac mae hwn yn ymrwymiad ledled Powys.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio Ardal y De</p>  <p>Dementia in Action Plan 9 - new format.</p> <p>Rheolwr y Ward</p>  <p>Audit action log Epynt ward Aug 201</p>	Fel rhan o'r Cynllun Dementia tair blynedd (2016-19)

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 15	Dylid diwygio'r broses ar gyfer adrodd a hysbysu ynglŷn â chamgymeriadau, digwyddiadau a gawsant eu hosgoi o drwch blewyn, a/neu ddigwyddiadau. Dylai'r gyfarwyddiaeth nyrsio allu dangos sut mae'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn digwyddiadau wedi cael eu lledaenu ymysg y staff. <i>Safon 6.3</i>	<p>Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig i sicrhau bod trafodaeth ac adborth am bryderon yn cael eu cynnwys yn y sesiynau unigol gyda phrif nyrs y ward.</p> <p>Bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu yn y cyfarfod Ansawdd Profiad y Claf a Risg lleol lle y disgwylir i brif nyrsys y ward fynychu a rhannu'r hyn a ddysgwyd.</p> <p>Bydd gwersi a ddysgwyd ar agenda cyfarfod tîm y ward.</p>	<p>Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Prif nyrs y ward</p>	<p>Diwedd mis Tachwedd 2016 Hydref 2016</p> <p>Hydref 2016</p>
Tudalen 15	Rhaid cwblhau dogfennau asesu cwmpau a chynllunio gofal yn gyson a'u cadw ar gyfer yr holl gleifion sydd mewn perygl o gwmpo. <i>Safon 2.3</i>	<p>Mae cynlluniau gofal cwmpau ar waith ar gyfer pob claf.</p> <p>Mae cynlluniau gofal cwmpau'n cael eu diweddarau bob wythnos neu ar ôl cwmp/newid yng nghyflwr y claf.</p> <p>Mae'r ward yn dilyn y Llwybr Cwmpau ac mae adolygiadau perthnasol yn cael eu cynnal, e.e. adolygiad meddyginiaeth.</p> <p>Bydd archwiliad o'r polisi cwmpau'n cael ei drefnu fel rhan o'r calendr archwilio ar gyfer 2017.</p>	<p>Prif nyrs y ward</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p> <p>Rhagfyr 2016</p>
Tudalen 16	Mae angen i reolwr ward Epynt sicrhau bod gwybodaeth ac offer atal cwmpo ar gael i staff a chleifion. <i>Safon 2.3</i>	<p>Mae matiau cwmpau ar gael ar gyfer atal cwmpau yn dilyn asesiad.</p> <p>Mae tair cloch larwm cwmpo newydd wedi cael</p>	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd Medi 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>eu prynu ar gyfer y ward.</p> <p>Ymgynghorydd yr ysbyty yw arweinydd clinigol Powys ar gyfer cwmpau.</p> <p>Mae rowndio bwriadol ar waith i sicrhau diogelwch cleifion, sicrhau bod cloch alw wrth law, bod sylw'n cael ei roi i anghenion toiled, a bod cleifion yn cael eu harsylwi er mwyn lleihau'r risg o gwmpo.</p> <p>Mae Taflen Atal Cwmpo Powys yn cael ei datblygu ar hyn o bryd trwy gyfrwng y fforwm cwmpau.</p>	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a'r Prif Ymgynghorydd	Rhagfyr 2016
Tudalen 17	Mae angen i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod yr holl staff yn cadw at y canllawiau rheoli heintiau bob amser. <i>Safon 2.4</i>	<p>Prif nyrs y ward sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff ac unrhyw ymwelwyr â'r ward yn cadw at bolisi a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau.</p> <p>Yr uwch nyrs atal a rheoli heintiau sy'n archwilio ymarfer, gyda chefnogaeth nyrsys cyswllt y ward.</p> <p>Mae rhaglen o adolygiadau glendid amgylcheddol, sy'n cael eu cynnal yn systematig ac sy'n cynnwys atal a rheoli heintiau, nyrsio corfforaethol, adnoddau, a gwaith ac ystadau, ac sy'n cael eu trafod yn y pwyllgorau atal a rheoli heintiau/amgylchedd.</p>	Prif nyrs y ward	Diwedd mis Mawrth 2016
Tudalen 18	Mae angen i reolwyr y ward sicrhau bod	Shift patterns have been reviewed to increase the number of staff available for mealtime supervision		

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>digon o gymorth a goruchwyliaeth briodol i gleifion fwyta eu prydau mewn ffordd urddasol a diogel. <i>Safon 2.5</i></p>	<p>Mae patrymau sifftiau wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod nifer priodol o staff ar gael i oruchwyllo adeg prydau bwyd.</p> <p>Anogir ymweld agored er mwyn i berthnasau cleifion sydd angen cymorth adeg prydau bwyd fynychu ar yr adegau hynny.</p> <p>Mae polisi amser bwyd neilltuedig wedi cael ei atgyfnerthu ac mae gan y staff swyddogaethau a chyfrifoldebau dros gleifion a thros baratoi'r amgylchedd ar gyfer gweini bwyd.</p> <p>Mae'r holl staff nyrsio a domestig wedi cael eu hatgoffa o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau adeg prydau bwyd.</p>		
Tudalen 18	<p>Mae angen i reolwr ward Epynt sicrhau bod dŵr ar gael i gleifion trwy'r amser. <i>Safon 2.5</i></p>	<p>Prif nyrs y ward sy'n gyfrifol am sicrhau bod staff nyrsio ac adnoddau'n cadw at ganllawiau Cymru gyfan ar gyfer darparu dŵr. Dangosodd adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfiaeth dda ledled Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.</p> <p>Mae jygiau dŵr ychwanegol wedi cael eu prynu.</p> <p>Mae jygiau dŵr yn cael eu hail-lenwi dair gwaith y dydd ac maent ar gael wrth erchwyn y gwely drwy'r dydd a thrwy'r nos. Nododd AGIC fod</p>	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd Medi 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		jygiau'n cael eu cymryd o ystafelloedd yn y nos gan adael gwydriad o ddŵr yn unig wrth erchwyn y gwely ac mae'r arfer hwn wedi cael ei adolygu.		
Tudalen 19	Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod diogelwch y ward yn cael ei gynnal trwy'r amser. <i>Safon 2.1</i>	<p>Mae'r swyddfa cofnodion yn cael ei chloi gyda bysellbad.</p> <p>Defnyddir bysellbadau i sicrhau bod swyddfa prif nyrs y ward, swyddfa'r meddygon a'r ardal storio yn ddiogel.</p> <p>Mae hysbysiad wedi cael ei ddatblygu i atgoffa staff i gau drysau wrth adael swyddfeydd er mwyn hyrwyddo cyfrinachedd.</p>	Prif nyrs y ward	Cwblhawyd Medi 2016
Tudalen 19	Mae angen i reolwr y ward sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r siartiau cofnod gweinyddu meddyginiaeth er mwyn canfod unrhyw hepgoriadau yn brydlon. <i>Safon 2.6</i>	Mae'r adran fferylliaeth yn cynnal archwiliad misol o feddyginiaethau a hepgoriadau, yn defnyddio dull archwilio Cymru gyfan. Caiff y canlyniadau eu trafod gyda'r timau amlddisgyblaeth ac mae'r canlyniadau'n cael eu coladu a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Profiad y Claf, Ansawdd a Diogelwch.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Tudalen 21	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei system bresennol ar gyfer cadw cofnodion cleifon. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cymryd camau i grynhoi'r wybodaeth gyffredinol sydd angen ei chwblhau ac i leihau dyblygiadau diangen. <i>Safon 3.5</i>	<p>Ar y cyfan, mae'r bwrdd iechyd yn derbyn adborth cadarnhaol am gofnodion a chadw cofnodion trwy gyfrwng nifer o archwiliadau mewnol ac allanol.</p> <p>Mae'r cofnodion nyrsio wedi cael eu hadolygu o'r blaen ac wedi cael eu hail-lunio a'u symleiddio lle bo'n bosibl, ac wedi derbyn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr a rhanddeiliaid.</p>	Rheolwr y Tîm Clinigol Integredig	Mawrth 2017

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae nodiadau'r tîm amlddisgyblaeth yn cael eu rhannu, a all ychwanegu at drwch y cofnod cyffredinol pan gânt eu coladu. Mae rhaglen beilot yn digwydd yn Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais, a all helpu i leihau dyblygu. Bydd y rhaglen beilot yn cael ei gwerthuso, gyda'r nod o'i chyflwyno yn y dyfodol.</p> <p>Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cael ei chyflwyno ym Mhowys o fis Tachwedd 2016 a bydd yn cael effaith sylweddol ar waith cadw cofnodion, gan symud tuag at e-gofnodion. Fodd bynnag, nid yw'n berthnasol i ysbytai cymunedol.</p>		
	<b>Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>			
Tudalen 23	Dylai'r bwrdd iechyd barhau i adolygu lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau i sicrhau bod nifer y staff a'u cymysgedd sgiliau'n ddigonol i ddarparu gofal amserol yn unol ag anghenion amrywiol a newidiol y cleifion ac amgylchedd y ward. <i>Safon 7.1</i>	<p>Mae'r bwrdd iechyd wedi cwblhau adolygiad o sefydliadau, ac mae sefydliadau diwygiedig wedi eu cytuno gan y Tîm Gweithredol ym mis Mehefin 2016. Mae'r lefelau staffio'n cydymffurfio ag egwyddorion y Prif Swyddog Nyrsio, er bod y lefelau hyn ar gyfer wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt trwy ddiffiniad.</p> <p>Mae'r broses recriwtio'n barhaus er mwyn llenwi swyddi gwag ac yn y cyfamser mae cyfanswm y gwelyau wedi cael ei leihau (am beth amser) i</p>	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol



Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r bwrdd iechyd	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>sicrhau gofal priodol i gleifion yn seiliedig ar y staff sydd ar gael.</p> <p>Caiff lefelau staffio eu hadolygu a'u trafod yn ddyddiol fel rhan o'r broses o reoli gwelyau a llif cleifion.</p> <p>Caiff unrhyw ddiffygion o ran staffio eu huwchgfyfeirio at yr uwch dîm rheoli i gael eu datrys neu i benderfynu ar gamau gweithredu a chânt eu hysbysu trwy gyfrwng Datix.</p>		
Tudalen 24	Yn ogystal ag adolygu lefelau staffio'n barhaus, fel y cynghorir uchod, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa gymorth ychwanegol, fel gwell timau integredig, a allai wella profiad y claf. <i>Safon 7.1</i>	<p>Caiff cymorth y tu allan i oriau ei ddarparu gan ymarferydd nyrsio brys Band 6 yr uned mân anafiadau trwy gyfrwng "model ysbyty yn y nos".</p> <p>Mae gwasanaeth ar alw gweithredol i roi cyngor a chefnogaeth i dimau clinigol.</p> <p>Bydd y Pennaeth Nyrsio a'r Pennaeth Therapiau'n cyfarfod i ddatblygu cynlluniau gofal therapiwtig i wneud y gorau o raglenni adsefydlu i gleifion sydd wedi cael strôc.</p>	Pennaeth Nyrsio a'r Pennaeth Therapiau	Rhagfyr 2016

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras): Rhiannon Jones, Cyfarwyddwr Nyrso**

**Teitl: Anita Davies, Pennaeth Nyrso**

**Dyddiad: 3 Hydref 2016**